

Nam ar y clyw

Nam ar y clyw neu fyddarwch yw pryd yr effeithir ar eich clyw gan gyflwr neu anaf. Mae rhai wedi eu geni gyda chyflwr colli clyw, gall ddatblygu ymhlith eraill wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Bydd pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a allai gynnwys lleferydd, iaith arwyddion, sillafu â bysedd, clyw sydd dros ben a darllen gwefusau neu gyfuniad o'r rhain.

Cynghorion Defnyddiol i Staff Academaidd

Hyd yn oed os bydd rhywun yn gwisgo cymorth clyw, nid yw'n golygu bod eu clyw'n berffaith; efallai y bydd angen iddynt ddarllen gwefusau o hyd.

Sicrhewch fod gennych sylw'r gwrandäwr cyn dechrau siarad

Sicrhewch fod gennych gysylltiad wyneb yn wyneb os byddwch yn siarad ag ef/hi yn uniongyrchol

Ceisiwch beidio â symud o gwmpas yr ystafell yn ormodol na throi oddi wrth eich cynulleidfa

Siaradwch yn glir, ond heb fod yn rhy araf a pheidiwch â gorwneud symudiadau eich gwefusau gan y gall hyn ei gwneud hi'n anos darllen gwefusau.

Rhowch amser i'r myfyriwr addasu i batrymau gwefus anghyfarwydd

Sicrhewch fod digon o olau yn yr ystafell ac y gall y myfyriwr weld eich wyneb yn glir – ceisiwch beidio â sefyll o flaen y ffenestri gan y bydd hyn yn bwrw cysgod dros eich wyneb

Defnyddiwch fynegiadau wyneb ac ystumiau naturiol

Peidiwch â gweiddi – gall fod yn anghyffyrddus ar gyfer defnyddwyr cymorth clyw a bydd yn ymddangos yn ymosodol

Os na fydd y myfyriwr yn deall beth rydych wedi ei ddweud, peidiwch â pharhau i'w ailadrodd; yn hytrach, ceisiwch aralleirio

Ysgrifennwch enwau neu derminoleg anghyfarwydd ar y bwrdd er eglurder

Rhowch unrhyw gyfarwyddiadau neu wybodaeth ar gyfer tasgau ar lawr dosbarth ac aseiniadau ysgrifenedig

Cofiwch y gall sŵn cefndirol neu dros ben dynnu llawer o sylw; efallai y bydd angen i chi osod rheolau ar gyfer trafodaethau dosbarth a grŵp

Ystyriwch drefniadau seddau er mwyn sicrhau bod gan y myfyriwr olwg glir ar y myfyrwyr eraill ac unrhyw weithwyr cymorth megis Cymerwr Nodiadau neu Weithiwr Cymorth Cyfathrebu

Defnyddiwch ficroffon neu wisgo cymorth radio os gofynnir i chi wneud hynny

Efallai y bydd gan fyfyrwyr sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (CSW) i gyfieithu sesiynau i iaith Arwyddion Prydain (BSL). Os bydd y myfyriwr yn defnyddio cymorth cyfathrebu:

Cofiwch siarad yn uniongyrchol â'r person rydych yn cyfathrebu ag ef, yn hytrach na'r cyfieithydd

Efallai y bydd ychydig o oedi cyn i'r CSW gwblhau'r trosiad i BSL, felly ceisiwch fonitro cyflymder y trafodaethau i sicrhau bod gan y defnyddiwr BSL gyfle i gyfrannu

Darparwch gynifer o ddarlithoedd a seminarau ag y bo modd ymlaen llaw er mwyn i'r CSW allu paratoi terminoleg benodol.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a'ch
Cydlunydd Cymorth Dysgu**